Bras amcan yw pellteroedd ac amseroedd y teithiau cerdded. Efallai y bydd angen i arweinwyr newid teithiau ar ôl ystyried maint y grŵp, y tywydd neu newid mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r teithiau wedi eu graddio.

- Bydd teithiau caletach yn 6 milltir neu fwy, yn croesi tir garw, yn dringo camfeydd ac yn aml yn cynnwys sawl esgyniad rhai ohonynt yn serth, ac felly mae angen lefel ffitrwydd da.

- Bydd teithiau cymhedrol yn fyrach, yn croesi peth tir garw, yn cynnwys rhai esgyniadau ac weithiau rhai camfeydd.

Arweinir pob taith gan wirfoddolwyr sydd yn arweinwyr cerdded hyfforddedig.

Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded a dillad addas a dylir cario bwyd a diod ar gyfer y teithiau hirach.

Gan bydd y teithiau yn croesi caeau sy'n cynnwys defaid ac anifeiliaid pori eraill, ni chaniateir cŵn ar y teithiau.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Sadwrn, Mehefin 6ed

### Taith 1

7 milltir (11.25 c), esgyn 2460 tr (750 m)…….........……Caletach
Taith gylch 4.5 awr heriol o gopa **Bwlch yr Oernant**, **Llangollen** dros fynyddoedd Llantysilio - Moel y Faen, Moel Gamelin, Moel y Gaer a Moel Morfydd. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 gyferbyn a chaffi Ponderosa (LL20 8DR Cyf SJ 193 481 ///gala. puddings.plodded). Dim cŵn. Arweinwyr: Andy a Bill.

### Taith 2

5-6 milltir (8-10 c), esgyn 820 tr (250 m)……..………Cymhedrol
Taith gylch 3 awr o **Brymbo** ar hyd llwybrau a ffyrdd, a thrwy gaeau a choedwigoedd, i gyfeiriad Cymau ac yna dychwelyd drwy Goedwig Brymbo a Halcog. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 o faes parcio di-dâl Canolfan Menter, Ffordd y Chwyth, Brymbo (LL11 5BT Cyf SJ 294 537 ///spilled.completed.quietest). Dim cŵn. Arweinwyr: John I a Roz.



## Dydd Sul, Mehefin 7fed

### Taith 1

11 milltir (17.5 c), esgyn 2000 tr (610 m)........…………Caletach
Taith gylch 6 awr heriol o **Gilcain** i Fryngeiri Oes yr Haearn Moel Arthur a Phen y Cloddiau, gan ddychwelyd ar hyd hen ffordd sy'n cyfuchlunio islaw bryniau Clwyd. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 o arosfan y golygfan, rhyw 0.5 milltir i'r gorllewin o Gilcain (parcio di-dâl) (CH7 5PA Cyf SJ 171 652 ///warnings.adapt.rash). Dim cŵn. Arweinwyr: Osian a John W.

### Taith 2 (Prynhawn)

4.5 milltir (7.25 c), esgyn 550 tr (168 m)……………...Cymhedrol
Taith 2.5-3 awr o **Goed Talon** drwy Bontybodcin tuag at Mynydd yr Hôb ac yna i Lanfynydd gan ddychwelyd ar hyd yr hen lwybr rheilffordd. Cyfarfod am 14.15 i gychwyn am 14.30 o'r arosfan ar Lôn Tir y Fron, Coed Talon gyferbyn a'r hen Railway Inn ar yr A5104 (CH7 4TN Cyf SJ 269 589 ///pickup.currently.eagle). Dim cŵn. Arweinwyr: Hazel a Barbara.



## Dydd Llun, Mehefin 8fed

### Taith 1

6.5 milltir (10.5 c), esgyn 935 tr (285 m)........…………..Caletach
Taith llinol 3.5-4 awr, gan **ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**, o gyffordd **Four Crosses ger Bwlchgwyn** i'r **Ffrith** ac ymlaen i **Gaergwrle** gan ddychwelyd i Wrecsam ar fws neu drên. Cyfarfod am 8.30 yng Ngorsaf Bysiau, Stryd y Brenin, Wrecsam i ddal bws T51 i Ddinbych am 8.50. Dim cŵn. Arweinwyr: Roy a Claudine.

### Taith 2 (Gyda'r nos)

3 milltir (5 c), esgyn 250 tr (75 m)……..……….…..…….......Haws
Taith gylchol 2 awr yn ardal **Yr Hôb**, ar hyd Clawdd Wat, o amgylch Caer Estyn a thrwy gaeau cyfagos. Cyfarfod am 18.15 i gychwyn am 18.30 o faes parcio di-dâl gyferbyn a'r Ganolfan Iechyd Teulu, Ffordd Penarlag (A550) yn yr Hôb (LL12 9NP Cyf SJ 309 578 ///exclusive.this.gardens). Dim cŵn. Arweinwyr: Hazel ac Alwyn.

## Dydd Mawrth, Mehefin 9fed

### Taith 1

11.5 milltir (18.5 c), esgyn 1500 tr (450 m).......………..Caletach
Taith llinol 6 awr, gan **ddefynddio trafnidiaeth gyhoeddus**, o **Landegla** i Safle Treftadaeth y Byd **Traphont Ddŵr Pontcysyllte** ar hyd llwybr Clawdd Offa, mynydd Eglwyseg a llwybr y Panorama. Cyfarfod am 8.30 yng Ngorsaf Bysiau, Stryd y Brenin, Wrecsam, i ddal bws T51 i Ddinbych am 8.50. Ar ddiwedd y daith bydd cyfle i gael lluniaeth yng Nghaffi Capel Pontcysyllte cyn dal bws yn ôl i Wrecsam. Dim cŵn. Arweinwyr: Osian a Dermot.

### Taith 2 (Prynhawn) (ailadroddir ar ddydd Iau)

4 milltir (6.5 c)…………………………………….………………Haws
Taith gylchol 2.5-3 awr gweddol wastad ar balmentydd a llwybrau o amgylch canol y ddinas gan gysylltu safleoedd **Blwyddyn o Ryfeddod Wrecsam (1876)**. Cyfarfod am 14.15 i gychwyn am 14.30 wrth Gofeb Rhyfel Wrecsam gyferbyn a'r llyfrgell yn Bodhyfryd (LL12 7AD Cyf Ref SJ 336 506 ///button.dots.battle). Dim cŵn. Arweinwyr: Roz, John I, Jenny R a Glenys.

### Taith 3 (Gyda'r nos)

5 milltir (8 c), esgyn 550 tr (165 m)…………………...Cymhedrol
Taith gylch 3 awr o gwmpas **Coedwig Nercwys ger Yr Wyddgrug** ac yna i Dir y Coed ac yn ôl. Cyfarfod am 17.15 i gychwyn am 17.30 o faes parcio Coedwig Nercwys oddi ar Ffordd Cae Newydd (CH7 4AY Cyf SJ 218 593 ///option.being. signed). Dim cŵn. Arweinwyr Hazel a Claudine.

www.walksinwrexham.com walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Mercher, Mehefin 10fed

### Taith 1

7 milltir (11.25 c), esgyn 1590 tr (485 m)..........…..……Caletach
Taith gylchol 4 awr o **Lanarmon Dyffryn Ceiriog** tua'r de dros Ben y Glôg, croesi Llwybr Ceiriog i Bowys a dychwelyd heibio Pantglas Ucha. Cyfle i gael cinio wedyn yn nhafarn yr Hand. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 o ganol y pentref lle mae parcio cyfyngedig (LL20 7LD Cyf SJ 157 328 ///camps.mows. enacts). Dim cŵn. Arweinwyr: Bill a Claudine.

### Taith 2 (Gyda'r nos)

4 milltir (6.5 c), esgyn 300 tr (90 m)………………………….Haws
Taith gylchol 2.5 awr o **Langollen** i Abaty Glyn y Groes, heibio Moel Tan y Coed i Rhaeadr y Bedol a dychwelyd ar hyd llwybr y gamlas. Cyfarfod am 18.15 i gychwyn am 18.30 o faes parcio'r Pafiliwn (Talu ac Arddangos) ar A542 (Ffordd yr Abaty) (LL20 8SW Cyf SJ 210 426 ///boomers.waltzed.guests). Dim cŵn. Arweinwyr: Hazel a Becky.